Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

2. Rheoli eich sefydliad

2.12 Diogelu data

Yr Egwyddorion Diogelu Data

Daeth **Deddf Diogelu Data 1998** (y Ddeddf), i rym ar 1 Mawrth 2000, ac mae'n amlinellu rhwymiadau'r rheini sy'n prosesu data, pwerau'r **Comisiynydd Gwybodaeth** i orfodi'r rhwymiadau hynny a'r troseddau a all gael eu cyflawni pan na chydymffurfir â hwy.

Mae'r Ddeddf yn gosod rhwymedigaethau ar **Reolwyr Data**. Mae Rheolwr Data yn rhywun sy'n rheoli, naill ar ei ben ei hun neu gydag eraill, sut a pham y caiff data personol ei brosesu. Mae **Data Personol** yn ddata sy'n rhoi gwybodaeth am unigolyn byw (e.e. cyfeiriad e-bost), ond nid yw'n cynnwys gwybodaeth am gwmnïau gan nad yw'r rheini yn unigolion byw. Mae'n cynnwys data a geir ar gyfrifiadur ac ar systemau ffeilio â llaw perthnasol. Ceir diffiniad eang iawn i'r gair **Prosesu**, ac yn ymarferol, gall gynnwys unrhyw beth a wnaiff eich sefydliad gyda data personol.

Rhaid i broseswyr data gydymffurfio â'r **Egwyddorion Diogelu Data**. Ceir wyth ohonynt:

- Rhaid prosesu data yn deg ac yn gyfreithlon.
- Dim ond at ddibenion penodol y ceir defnyddio data.
- Rhaid i ddata fod yn ddigonol, yn berthnasol a ddim yn ormodol.
- Rhaid i ddata fod yn gywir ac wedi'i ddiweddaru.
- Ni ddylid cadw data yn hwy nag sydd angen.
- Caiff data ei brosesu yn unol â hawliau gwrthrych y data (Unigolyn y ceir data personol amdano).
- Rhaid cadw data yn ddiogel.
- Ni ellir trosglwyddo data y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop heb gamau diogelu digonol.

Rhan hanfodol o'r Ddeddf yw bod rhaid prosesu'r holl Ddata yn deg. Er nad oes diffiniad statudol o'r hyn sy'n 'deg', mae'r Ddeddf yn rhoi arweiniad penodol ar yr hyn sy'n debygol o fod yn deg. Y prif ofynion yw:

- Rhaid peidio â thwyllo na chamarwain Gwrthrych y Data.
- Rhaid i Wrthrych y Data wybod at ba ddiben y bwriedir y Data.
- Rhaid i Wrthrych y Data gael gwybod pwy yw'r Rheolwr Data.
- Rhaid rhoi gwybod i Wrthrych y Data os yw'n debygol y caiff y Data ei drosglwyddo i drydydd parti.

Mae'n bwysig nodi mai arweiniad yn unig yw'r gofynion uchod ac nad yw cydymffurfio â hwy o reidrwydd yn sicrhau prosesu teg.

Data sensitif

Ceir bellach mwy o gamau diogelu i'r hyn a elwir yn Ddata Sensitif. Mae Data Sensitif yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- tarddiad hil neu ethnig
- barn wleidyddol
- credoau crefyddol neu gredoau eraill tebyg
- aelodaeth o undeb Llafur
- cyflwr iechyd corfforol neu iechyd meddwl
- bywyd rhywiol
- cyflawni (neu honiad o gyflawni) unrhyw drosedd
- achosion llys

Gellir prosesu Data Sensitif ar yr amodau isod:

- Mae Gwrthrych y Data wedi rhoi ei g/chaniatâd penodol.
- Mae'n ofyniad cyfreithiol i swydd gwrthrych y data.
- Mae'n angenrheidiol er mwyn diogelu budd hanfodol gwrthrych y data.
- Fe'i cyflawnir gan gyrff di-elw penodol a sefydlwyd at ddibenion gwleidyddol, athronyddol, crefyddol neu undebau llafur.
- Mae'n angenrheidiol ar gyfer achos cyfreithiol.
- Mae'n angenrheidiol at ddibenion meddygol.
- Mae'n angenrheidiol er mwyn monitro cyfle cyfartal.
- Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi ei ganiatâd.
- Mae'n angenrheidiol er mwyn atal neu ganfod unrhyw weithred anghyfreithlon.
- Mae'n angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau, megis gwasanaethau cyfrinachol, cwnsela neu rai sy'n rhoi cyngor.
- Mae'n angenrheidiol at gytundebau cynllun yswiriant neu bensiwn galwedigaethol.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn, a gellir ychwanegu categorïau drwy Offeryn Statudol.

Ni ellir defnyddio Data Sensitif oni fodlonwyd o leiaf un o'r amodau uchod.

Ymddengys mai'r amod pwysicaf yw bod gwrthrych y data wedi rhoi ei ganiatâd penodol. Rhaid iddo roi'r caniatâd hwn o'i wirfodd, a lle bo hynny'n bosibl, dylai ymwneud â'r union Ddata a'r dull o'i brosesu. Nid oes rhaid iddo fod yn ganiatâd ysgrifenedig a gall weithiau fod yn ymhlyg. Er enghraifft, llenwi ffurflen archebu ar gyfer cynhadledd, sy'n datgan ei bod yn bosibl y defnyddir y wybodaeth at ddibenion penodol eraill. Yn gryno, rhaid i wrthrych y data roi ei ganiatâd.

Hawliau Gwrthrych y Data

Mae gan Wrthrych y Data yr hawliau a ganlyn:

- Cael gafael ar wybodaeth amdanynt hwy eu hunain.
- Rhoi caniatâd neu beidio â'i roi.
- Dewis peidio â bod yn rhan o farchnata uniongyrchol.
- Cyfyngu ar y penderfyniadau a wneir yn awtomataidd.
- Gofyn am asesiad.
- Gwneud cais i gael gafael ar wybodaeth.

Mae'n rhaid i Reolwr Data, pan geir cais ysgrifenedig gan Wrthrych y Data ac wedi iddo dalu ffi (uchafswm o £10), roi copi o'r Data i Wrthrych y Data, a darparu'r isod:

- Disgrifiad o'r Data
- Esboniad yn dweud at ba ddiben y cedwir y data
- Ffynhonnell y Data
- Enw'r sawl y mae'n bosibl y datgelir y Data iddo/ynt.

Rhaid i'r Rheolwr Data ddarparu'r holl ddata a oedd ganddo pan wnaed y cais o fewn 40 diwrnod. Ni ellir dal gwybodaeth sy'n achosi embaras yn ôl.

Serch hynny, gellir dal gwybodaeth yn ôl, naill ai os bydd gwrthrych y data yn cytuno i hynny, neu pe bai angen ymdrech afresymol i ddarparu'r wybodaeth.

Gellir dal gwybodaeth yn ôl hefyd os yw'n enwi trydydd parti. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd gwybodaeth am gyfeiriadau sy'n ymwneud â chais am swydd yn debygol o gynnwys geirdaon a bydd yn bosibl adnabod y canolwr. Os yw'r canolwr wedi rhoi ei ganiatâd, neu os deallwyd y gellid cael gafael ar y geirda, yna byddai rhaid datgelu'r wybodaeth. Ar y llaw arall, os oedd y geirda'n gyfrinachol, mae'n debygol na ellid ei ddatgelu.

Mae gan Wrthrych y Data hawl i ddewis peidio â bod yn rhan o farchnata uniongyrchol, sy'n hynod berthnasol i godi arian i elusen. Gall unigolyn a enwir a gaiff daflen yn gwahodd cyfraniad, ofyn i'r Rheolwr Data beidio â defnyddio gwybodaeth at y diben hwn. Ni chaiff taflen gyffredinol ei chynnwys, ond mae cynnwys blwch ticio i alluogi derbynwyr i beidio â chymryd rhan yn arfer da. Mae marchnata yn cynnwys tele-farchnata yn ogystal â deunydd ysgrifenedig.

Mae'r Comisiwn Gwybodaeth wedi cyflwyno logo, a gellir ei lwytho i lawr oddi ar eu gwefan a'i ddefnyddio gan Reolwyr Data fel arwydd i Wrthrych y Data y caiff Data Personol ei gasglu a'i brosesu.

Os yw sefydliadau yn dibynnu ar benderfyniadau awtomataidd (cyfrifiaduron yn hepgor ymgeiswyr penodol am swyddi), rhaid iddynt roi gwybod i'r ymgeisydd pan ddefnyddir dulliau o'r fath.
Gall yr unigolyn wrthwynebu a mynnu cael gwerthusiad gan berson.

Hysbysu

Mae hysbysu wedi disodli cofrestru ac mae nifer y categorïau wedi'u lleihau'n sylweddol. Mae hysbysu'n hanfodol (er y gall Rheolwyr Data a eithriwyd hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth yn wirfoddol) a gwneir hyn gan y Rheolwr Data. Bydd yn cynnwys manylion am y canlynol:

- Enw a chyfeiriad.
- Manylion tebyg ynghylch cynrychiolydd a enwebir.
- Manylion y Data Personol a gaiff eu prosesu.
- Y categorïau perthnasol.
- Manylion ynghylch y dibenion y prosesir y Data ar eu cyfer.
- Disgrifiad o unrhyw dderbynwyr posibl y Data.
- Manylion ynghylch posibilrwydd trosglwyddo data y tu allan i AEE.

Nid oes rhaid hysbysu am Ddata Penodol (er mae'n angenrheidiol gwneud datganiad am y ffaith y cedwir Data a eithriwyd):

- Gwybodaeth am systemau â llaw.
- Gwybodaeth am gyflogres, marchnata, cyfrifon a chyflenwadau cwsmeriaid.

Diogelwch

Mae'n bwysig bod Rheolwyr Data yn sicrhau y caiff gwybodaeth ei diogelu ac na all personél heb awdurdod gael gafael ar y wybodaeth.

Troseddau

Mae'r canlynol yn droseddau y gellid eich cosbi gyda dirwy o hyd at £5,000.

- Methu â rhoi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth.
- Cadw Data Personol yn anghyfreithlon.
- Gwerthu Data Personol yn anghyfreithlon.

Eithriadau

Gellir cyfyngu hawliau Gwrthrych y Data ar y seiliau canlynol:

- Diogelwch y wlad
- Trosedd a threthu
- Iechyd, addysg a gwaith cymdeithasol
- Gweithgareddau rheoleiddio
- Newyddiaduraeth, llenyddiaeth a chelfyddydau
- Ymchwil, hanes ac ystadegau
- Cyfrinachedd cyfreithiolCyfeiriadau cyfrinachol a gaiff eu rhoi gan y Rheolwr DataCategorïau eraill a gyflwynir gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Trosglwyddo data dramor

Rhaid peidio â throsglwyddo Data Personol i wlad neu diriogaeth y tu allan i AAE oni bai bod y wlad neu'r diriogaeth honno yn sicrhau lefel ddigonol o ddiogelwch ar gyfer hawliau a rhyddid Gwrthrych y Data.

Gellir trosglwyddo Data yn yr achosion canlynol:

- Pan fydd y gweithiwr wedi rhoi ei ganiatâd penodol.
- Mae perfformio neu lunio contract yn angenrheidiol.
- Oherwydd budd sylweddol i'r cyhoedd.
- Pan fydd yn rhan o Ddata Personol ar gofrestr gyhoeddus
- Ar delerau a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Camau gweithredu

Dylai sefydliadau wneud y canlynol:

- Penodi unigolyn i oruchwylio cydymffurfio â'r rheoliadau.
- Canfod gweithwyr a gwirfoddolwyr sy'n prosesu Data a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r darpariaethau a'u bod yn cydymffurfio â hwy.
- Adolygu cytundebau cyflogaeth safonol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chaniatâd i brosesu Data.
- Cyflwyno gweithdrefn ffurfiol yng nghyswllt geirdaon.Adolygu gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a gedwir yn gywir, yn cael ei diweddaru ac na chaiff ei chadw ond am yr amser sy'n ofynnol.
- Sicrhau y cedwir y Data yn ddiogel.
- Cyflwyno polisi diogelu Data a fydd yn cynnwys y canlynol:
    - Prosesu a throsglwyddo Data, i drydydd parti a thramor yn benodol
    - Delio â cheisiadau i gael gafael ar wybodaeth
    - Delio â systemau cofnodi â llaw ac awtomataidd
    - Cydnabod Data Sensitif (ar systemau TG)
- Llunio hysbysiad safonol sy'n caniatáu i wrthrych y data ddewis a gaiff y sefydliad gadw eu Data ai peidio.

Gwybodaeth bellach

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Ffôn: 01625 545745
www.ico.gov.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Canolfan Gweithredu Gwirfoddol, 89-90 Stryd Fawr, Merthyr Tudful, CF47 8UH
Elusen Gofrestredig *1060242*

Ffôn: 01685 353900 enquiries@vamt.net
Ffacs: 01685 353909 www.vamt.net

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:17/03/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk